

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales



Adroddiad Archwilio Blynyddol 2014

## **Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda**

**Cyhoeddwyd:** Ionawr 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** 746A2014

# Statws yr adroddiad

---

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol nac unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [infoofficer@wao.gov.uk](mailto:infoofficer@wao.gov.uk).

Roedd y tîm a fu'n gyfrifol am baratoi'r adroddiad hwn yn cynnwys Tracey Davies, Geraint Norman, Richard Harries a David Thomas.

# Cynnwys

---

Adroddiad cryno	4
Adroddiad manwl	
Yr adroddiad hwn	8
Adran 1: Archwilio cyfrifon	9
Rwyf wedi cyflwyno tystysgrif archwilio ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2013-14 y Bwrdd Iechyd ond roedd fy marn ar reoleidd-dra yn amodol ac wedi'i hategu gan adroddiad sylweddol	9
Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau	14
Mae gan y Bwrdd Iechyd reolaeth ariannol ganol blwyddyn gadarnhaol ar y cyfan ond mae rhai gwelliannau'n ofynnol. Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb yn 2013-14 ac mae'n annhebygol o wneud hynny yn 2014-15. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cyfeiriad strategol clir drwy ei Gynllun Tymor Canolig Integredig	14
Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gryfhau ei drefniadau llywodraethu ac yn creu diwylliant mwy agored a thryloyw. Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn rhai meysydd wedi bod yn araf ac nid yw'r Bwrdd Iechyd eto wedi rhoi sylw i rai gwendidau sylfaenol gan gynnwys datblygu cynllun strategol clir a fframwaith sicrwydd i'r Bwrdd	16
Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella ei drefniadau cynllunio gweithlu ac yn cryfhau ymhellach ei waith partneriaeth a'i gysylltiadau â'i boblogaeth leol, ond ceir o hyd nifer o risgiau arwyddocaol o safbwynt y gweithlu, ystadau ac asedau	20
Er bod fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi rhai meysydd arferion da mae hefyd wedi nodi cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd	24
Atodiadau	
Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf	29
Risgiau archwilio arwyddocaol	30

# Adroddiad cryno

---

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio a wnaed gennyf ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2014. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Deddf 2013) o safbwynt archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
2. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal ag ar risgiau ariannol a gweithredol arwyddocaol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir rhagor o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Trafodir yr adroddiadau hyn a chytunir ar eu cywirdeb ffeithiol gyda swyddogion ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd gennyf i'w gweld yn [Atodiad 1](#).
3. Cytunwyd ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr Interim a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio. Fe'i cyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio yn Ionawr 2015 ac i'r Bwrdd yn Ionawr 2015. Anogwn y Bwrdd Iechyd i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ([www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)).

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

4. Rwyf wedi cyflwyno tystysgrif archwilio ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2013-14 y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, oherwydd bod datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn adrodd am orwariant o £19.225 miliwn yn erbyn y terfyn adnoddau refeniw, roedd fy marn ar reoleidd-dra yn amodol.
5. Cyhoeddais hefyd adroddiad sylweddol ychwanegol gyda fy nhystysgrif archwilio. Mae'r adroddiad sylweddol hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod y Bwrdd Iechyd wedi gorwario yn erbyn ei derfyn adnoddau yn 2013-14. Mae fy adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) tair blynedd y Bwrdd Iechyd, sy'n dechrau yn 2014-15, yn cyflwyno heriau ariannol sylweddol ac nad oedd y CTCI wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.
6. O safbwynt datganiadau ariannol 2013-14 y Bwrdd Iechyd:
  - roedd y datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol ac roeddent yn gywir yn eu hanfod;
  - roedd gan y Bwrdd Iechyd 'amgylchedd rheoli' effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau sylweddol yn y datganiadau ariannol er bod lle i wella; ac
  - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu arwyddocaol y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu'n ôl y bwriad er bod rhai meysydd sy'n gofyn am weithredu gan y rheolwyr.

- 
7. Ni nodwyd unrhyw faterion sy'n berthnasol i gywirdeb a chyflawnrwydd datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, fe wnaethom ganfod taliad o £8.8 miliwn a wnaed mewn camgymeriad i Wasanaethau Deintyddol GIG Cymru a gafodd ei gywiro'r diwrnod gwaith nesaf. Er mai digwyddiad unwaith-ac-am-byth oedd hwn a bod y Bwrdd Iechyd wedi sylwi arno, mae angen i'r Bwrdd Iechyd fodloni ei hun bod y rheolaethau'n cael eu gwella er mwyn atal hyn rhag digwydd eto.
  8. Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2013-14, ac mae'n wynebu heriau ariannol sylweddol i'r dyfodol. Ceir rhagor o fanylion am sefyllfa ariannol a threfniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd yn Adran 2 yr adroddiad hwn.

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

9. Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith mewn perthynas â'r Aseiad Strwythuredig wedi ystyried cadernid trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd a digonolrwydd ei drefniadau llywodraethu, gan gynnwys y cynnydd a wnaed ers y llynedd o ran llywodraethu ansawdd a threfniadau ar gyfer gwella profiad cleifion/defnyddwyr. Cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad hefyd ar feysydd darparu gwasanaethau penodol. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at y casgliadau canlynol.

Mae gan y Bwrdd Iechyd reolaeth ariannol ganol blwyddyn gadarnhaol ar y cyfan ond mae rhai gwelliannau'n ofynnol. Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb yn 2013-14 ac mae'n annhebygol o wneud hynny yn 2014-15. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cyfeiriad strategol clir drwy ei Gynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI).

- Yn 2013-14, ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb, gan adrodd am ddiffyg ariannol o £19.225 miliwn. Roedd y rheolaeth ariannol yn gadarn, ond roedd rhai o Gynlluniau Gwella Costau (CGC) y gweithlu yn rhy uchelgeisiol ac ni cheid cynlluniau manwl i'w cefnogi.
- Ar gyfer 2014-15, mae'r trefniadau adrodd a'r rheolaeth ariannol ganol blwyddyn yn gadarn ond ni cheir cynllun ariannol cytbwys a chynaliadwy ac mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn rhagamcanu diffyg ariannol diwedd blwyddyn sylweddol o £63 miliwn (mae £19.225 miliwn o hwn yn ymwneud ag ad-dalu diffyg ariannol 2013-14).
- Nid oes gan y Bwrdd Iechyd CTCI cymeradwy sy'n pennu cyfeiriad strategol clir gan gyplysu cyllid, y gweithlu a gwasanaethau.

---

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gryfhau ei drefniadau llywodraethu ac yn creu diwylliant mwy agored a thryloyw. Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn rhai meysydd wedi bod yn araf ac nid yw'r Bwrdd Iechyd eto wedi rhoi sylw i rai gwendidau sylfaenol gan gynnwys datblygu cynllun strategol clir a fframwaith sicrwydd i'r Bwrdd.

- Er iddo wneud nifer o newidiadau pwysig mewn gwasanaethau, mae gwendidau yn CTCI y Bwrdd Iechyd yn awgrymu nad yw cynllunio strategol wedi bodloni anghenion y sefydliad, er bod gwaith yn mynd rhagddo i roi sylw i hyn.
- Mae'r strwythur trefniadol newydd yn darparu llinellau atebolrwydd cliriach ac yn arwain at ffocws cadarnach ar gyflawni gweithredol, gwella a newid. Ar gyfer rhai meysydd, bydd sicrhau newid yn dibynnu ar roi sylw i nifer o heriau diwylliannol anodd.
- Mae effeithiolrwydd y Bwrdd, sicrwydd y Bwrdd a rheolaethau mewnol yn parhau i gael eu cryfhau ac maent yn effeithiol i raddau helaeth er bod rhai meysydd pwysig sydd angen sylw o hyd. Mae'r rhain yn cynnwys cytuno ar amcanion strategol clir a mesuradwy, sefydlu fframwaith sicrwydd cliriach i'r Bwrdd, diwygio'r cynlluniau dirprwyo a hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau, sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn canolbwyntio ar ganlyniadau gan gwmpasu pob maes busnes allweddol.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn rhagweithiol i nifer o faterion llywodraethu ansawdd a nodwyd y llynedd er nad yw'r Bwrdd Iechyd hyd yma wedi datblygu dull gweithredu sefydliadol o ddysgu oddi wrth gwynion a digwyddiadau eraill.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella ei drefniadau cynllunio gweithlu ac yn cryfhau ymhellach ei waith partneriaeth a'i gysylltiadau â'i boblogaeth leol, ond ceir o hyd nifer o risgiau arwyddocaol o safbwynt y gweithlu, ystadau ac asedau

- Mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei drefniadau rheoli newid a cheir rhai esiamplau cadarnhaol o newid llwyddiannus.
- Ceir arwyddion cynnar o ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i gryfhau prosesau cynllunio'r gweithlu a chyflenwi gwasanaethau ond erys rhai heriau o safbwynt recriwtio a'r gweithlu o hyd.
- Fel mewn rhannau eraill o Gymru, mae cyflwr ystâd ac offer a chyfarpar y Bwrdd Iechyd yn cyflwyno risgiau gwasanaeth ac ariannol arwyddocaol.
- Mae dull gweithredu'r Bwrdd Iechyd o safbwynt gweithio cydweithredol yn gadarnhaol er nad yw mesurau perfformiad a chanlyniadau wedi'u diffinio'n dda ar draws y partneriaethau.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod yr angen i gysylltu'n fwy parhaus gyda'i boblogaeth er mwyn gwella'i enw da a hysbysu pobl leol o'r heriau y mae'r GIG yn eu hwynebu a'r angen am newid.

---

Er bod fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi rhai meysydd arferion da mae hefyd wedi nodi cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd penodol

- Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth glir ar gyfer ei wasanaeth nyrsys ardal, a chaiff y cynllunio a'r cyflenwi eu cymhlethu gan ddealltwriaeth gyfyngedig o'r galw, amrywiad nas esbonnir mewn defnydd a diffyg monitro systematig ar ansawdd a pherfformiad.
  - Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi proffil uchel i godio clinigol, gan gefnogi hyn â lefel addas o fuddsoddiad. Mae'r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar wella ansawdd y wybodaeth reoli er bod angen gwelliannau pellach.
  - Mae galw mawr a gwasanaethau cleifion allanol aneffeithlon yn arwain at amseroedd aros hir ar gyfer cleifion allanol orthopedig a thriniaeth ddiagnostig. Mae'r canlyniadau i gleifion yn gyffredinol dda, ond mae'r cyfraddau uchel o ddiwygio llawdriniaethau cymalau newydd a llawdriniaethau nad ydynt yn effeithiol iawn yn destun pryder.
  - Er y gellir bod yn sicr bod y data absenoldeb oherwydd salwch a gofnodir gan y Bwrdd Iechyd yn gywir i raddau helaeth, mae perygl bod y ffigurau hyn yn cael eu tanddatgan fymryn, yn enwedig os cânt eu cymryd o adroddiadau a wneir yn fuan ar ôl i'r cyfnod ddod i ben.
  - Ers fy ngwaith diwethaf yn 2011, tra bod tystiolaeth o ryw gymaint o ymdrechion lleol i wella gwasanaethau theatrau llawdriniaethau, drwyddo draw ni fu gwelliant sylweddol mewn perfformiad ac erys rhai rhwystrau sylfaenol rhag darparu gwasanaethau darbodus, effeithlon ac effeithiol o hyd.
- 10.** Hoffem ddiolch o galon i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

---

## Yr adroddiad hwn

11. Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau'r Bwrdd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng Rhagfyr 2013 a Rhagfyr 2014. Cyflawnir fy ngwaith yn y Bwrdd lechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodir yn Neddf 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol imi:
  - a) archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol a gyflwynwyd imi gan y Bwrdd lechyd, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
  - b) bodloni fy hun yr aed i'r gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hwy at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu; a
  - c) bodloni fy hun bod y Bwrdd lechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
12. Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
  - canlyniadau'r gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol;
  - gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf a archwiliai'r trefniadau rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd a'r defnydd o adnoddau;
  - manylu ar archwiliadau o berfformiad;
  - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
  - gwaith arall, megis ymarferion paru data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.
13. Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd lechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn. Rhestrir y rhain yn **Atodiad 1**. Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
  - **Adran 1:** Archwilio cyfrifon
  - **Adran 2:** Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau
14. Roedd fy Amlinelliad o Waith Archwilio 2014 yn datgan y ffi archwilio arfaethedig o £420,556 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail bod rhyw gymaint o waith yn dal i fynd rhagddo, yn gyson â'r ffi a nodir yn yr Amlinelliad. Mae'r ffi hon yn cynnwys y gwaith archwilio a wnaed ar y cydwasanaethau a ddarparwyd i'r Bwrdd lechyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.
15. Yn olaf, mae **Atodiad 2** yn datgan y risgiau archwilio ariannol arwyddocaol a amlygwyd yn yr Amlinelliad o Waith Archwilio 2014 a sut y rhoddwyd sylw iddynt gydol yr archwiliad.



---

## Adran 1: Archwilio cyfrifon

- 16.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol 2013-14 y Bwrdd Iechyd. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lifoedd arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o'r broses o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.
- 17.** Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:
- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
  - a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau sylweddol – a achoswyd drwy dwyll neu wall;
  - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
  - a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
  - rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.
- 18.** Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs). Wrth wneud y gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:
- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd; a'i
  - systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

## Rwyf wedi cyflwyno tystysgrif archwilio ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2013-14 y Bwrdd Iechyd ond roedd fy marn ar reoleidd-dra yn amodol ac wedi'i hategu gan adroddiad sylweddol

- 19.** Rwyf wedi cyflwyno tystysgrif archwilio ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2013-14 y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, gan fod datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn adrodd am orwariant o £19.225 miliwn yn erbyn y terfyn adnoddau refeniw, roedd fy marn ar reoleidd-dra yn amodol. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod y gyfundrefn ariannol y mae'n ofynnol i fyrddau iechyd lleol weithredu ynddi, yn rhagnodi 'terfyn adnoddau' blynyddol. Terfyn statudol ar wariant net ydy hwn, sy'n mynnu bod pob bwrdd iechyd lleol yn gweithredu'n ddiwyro o fewn y terfyn adnoddau a bennir iddo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol honno.
- 20.** Os yw gwariant net bwrdd iechyd lleol yn mynd dros y terfyn adnoddau, ystyrir bod y gwariant hwnnw heb ei awdurdodi ac felly'n afreolaidd. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'r farn ar reoleidd-dra yn amodol, ni waeth faint yw gwerth y gwariant gormodol.

- 
21. Cyflwynais hefyd adroddiad sylweddol ychwanegol ochr yn ochr â'm tystysgrif archwilio. Mae'r adroddiad sylweddol hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod y Bwrdd Iechyd wedi gorwario yn erbyn ei derfyn adnoddau yn 2013-14. Mae fy adroddiad hefyd yn amlygu'r ffaith bod CTCI tair blynedd y Bwrdd Iechyd sy'n dechrau yn 2014-15 yn cyflwyno heriau ariannol sylweddol ac nid oedd y cynllun wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.
  22. Ni welsom unrhyw faterion sy'n berthnasol i gywirdeb a chyflawnrwydd y datganiadau ariannol. Fodd bynnag, rwyf wedi nodi camgymeriad mawr mewn taliadau yn y flwyddyn a gafodd ei gywiro'r diwrnod gwaith nesaf. Ar 3 Mawrth 2014, gwnaeth y Bwrdd Iechyd daliad o £9.9 miliwn i Wasanaethau Deintyddol GIG Cymru (a oedd o fewn y GIG) am wasanaethau deintyddol a ddarparwyd ym mis Chwefror 2014. Fodd bynnag, £1.1 miliwn yn unig y dylai'r Bwrdd Iechyd fod wedi'i dalu - talodd y Bwrdd Iechyd am wasanaethau deintyddol chwe bwrdd Iechyd lleol arall mewn camgymeriad. Gwelwyd y gordaliad o £8.8 miliwn y diwrnod canlynol a chafodd y swm ei ad-dalu ar 4 Mawrth 2014. Er mai digwyddiad unwaith-ac-am-byth oedd hwn a bod y Bwrdd Iechyd wedi sylwi arno, mae angen i'r Bwrdd Iechyd fodloni ei hun bod y rheolaethau'n cael eu gwella er mwyn atal hyn rhag digwydd eto. Mae adroddiad sy'n nodi'r newidiadau yn y system daliadau wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio.
  23. Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb ar ddiwedd 2013-14 ac mae'n wynebu heriau ariannol sylweddol i'r dyfodol. Mae rhagor o fanylion am y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol i'w gweld yn [Adran 2](#) o'r adroddiad hwn.
  24. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi rheoli ei raglen gyfalaf yn llwyddiannus gan gadw o fewn terfyn yr adnoddau ariannol cyfalaf o £21 miliwn ar gyfer 2013-14.

#### Roedd y datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol ac roeddent yn gywir yn eu hanfod

25. Cafodd datganiadau ariannol drafft y Bwrdd Iechyd eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio ar 6 Mai 2014, ac wedyn eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd ar 4 Mehefin 2014 cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau ar 6 Mehefin 2014.
26. Roedd y datganiadau ariannol wedi eu paratoi i safon uchel a gwelsom fod y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn hawdd ei deall. Roedd tystiolaeth hefyd fod y datganiadau ariannol wedi cael eu harchwilio'n fanwl er mwyn sicrhau ansawdd, gan gynnwys adolygiad manwl gan y Pwyllgor Archwilio ynghyd ag 'adolygiad dadansoddol' cynhwysfawr.
27. Mae fy nhîm wedi parhau i weithio gyda staff Cyllid y Bwrdd Iechyd a'r Pwyllgor Archwilio gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod materion posibl yn cael eu nodi a'u datrys yn amserol. Ar ôl cwblhau'r archwiliad, cynhaliodd fy nhîm sesiwn ddysgu ôl-brosiect ar y cyd gyda staff Cyllid allweddol. Bydd hyn yn helpu i lywio ein cynllunio ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2014-15 y Bwrdd Iechyd.
28. Mae'n ofynnol i mi, yn unol ag ISA 260, gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn imi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 4 Mehefin 2014. Mae [Arddangosyn 1](#) yn crynhoi'r materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw na nodwyd yn flaenorol yn yr Adroddiad hwn.

## Arddangosyn 1: Materion allweddol a nodwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

Mater	Sylwadau'r Archwilydd
<p>Costau amddiffyn ar gyfer hawliadau am anaf personol ac esgeulustod clinigol</p>	<p>Gyda chostau amddiffyn ar gyfer hawliadau sydd â thebygolrwydd o lai na 50 y cant, nid yw'r Bwrdd Iechyd ond yn darparu ar gyfer 50 y cant o'r costau amddiffyn i'r dyfodol. Mae hyn wedi cael ei defnyddio'n gyson ers ffurfio'r Bwrdd Iechyd. Mae cost net amddiffyn yr hawliadau hyn i'r dyfodol ar 31 Mawrth 2014 yn oddeutu £700,000. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu yn ei ddatganiadau ariannol ar gyfer 50 y cant o'r swm hwn yn seiliedig ar brofiad hanesyddol. Mae anghysondeb sylweddol i'w weld ledled Cymru (mae cyrff y GIG yn darparu rhwng 10 y cant a 100 y cant). Nid yw hwn yn fater o bwys a bydd yn cael ei ystyried fel mater i Gymru gyfan yn 2014-15.</p>
<p>Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus – mesur cydymffurfiaeth</p>	<p>Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn cod taliad prydlon Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus (PTSC) yn cael ei nodi yn y Datganiadau Ariannol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed Gweinidogol o 95 y cant ar gyfer nifer y taliadau'r tu allan i'r GIG a wneir o fewn 30 diwrnod ar ôl cyflawni. Adroddodd y Bwrdd Iechyd ar berfformiad o 95.2 y cant ar gyfer nifer y taliadau tu allan i'r GIG o fewn 30 diwrnod o gyflawni yn 2013-14. Adolygodd yr Archwiliad Mewnol system y Bwrdd Iechyd i gyfrifo'r data perfformiad o ran PTSC a daeth i'r casgliad nad oedd y Bwrdd Iechyd, tan fis Tachwedd 2013, yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru - roedd y Bwrdd Iechyd yn cyfrif y 30 diwrnod o'r dyddiad y deuai'r anfoneb i law'r adran Gyllid yn hytrach na'r dyddiad y deuai'r anfoneb i law'r adran a gomisiynai'r gwaith. Mae'n bolisi gan y Bwrdd Iechyd i anfonebau gael eu hanfon i'r adran Gyllid, ond nid yw hyn yn wir ar gyfer pob anfoneb. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau wedi'u diweddarau ar 30 Hydref 2013 a diweddarodd y Bwrdd Iechyd ei weithdrefnau.</p> <p>Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff y GIG gynnwys taliadau a wneir i gontractwyr gofal sylfaenol yn eu data perfformiad PTSC. Nid yw system taliadau gofal sylfaenol y Bwrdd Iechyd yn darparu gwybodaeth ystadegol ac yn unol â chyrff eraill y GIG tybir bod pob taliad yn cael ei wneud cyn pen 30 diwrnod yn unol â'r rhwymedigaethau contractiol, ond efallai nad yw hyn yn wir yn ymarferol.</p> <p>Gallai data perfformiad y PTSC o safbwynt y targed Gweinidogol ar gyfer taliadau'r GIG a thaliadau tu allan i'r GIG yn Nodyn 7.1 yn y Datganiadau Ariannol fod wedi'u cam-ddatgan. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwella ei weithdrefnau ar gyfer 2014-15 a bydd yn cael ei ystyried fel mater i Gymru gyfan yn 2014-15.</p>

- 
- 29.** Fel rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais yr adolygiadau canlynol hefyd:
- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan – deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2014, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys; a
  - Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol – deuthum i'r casgliad bod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau llawn a bod yr Adroddiad Blynyddol yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- 30.** Mae fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol cronfeydd elusennol y Bwrdd Iechyd hefyd wedi'i gwblhau ac nid oedd dim materion o bwys yn codi. Cafodd fy adroddiad ar y datganiadau ariannol ei ystyried gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol a'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2014.

**Mae gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheoli effeithiol i leihau'r risg o gamddatganiadau sylweddol yn y datganiadau ariannol er bod lle i wella**

- 31.** Mae fy ngwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar gywirdeb y datganiadau ariannol, gan adolygu'r amgylchedd rheoli mewnol er mwyn asesu a yw'n rhoi sicrwydd nad oes dim camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol. Heblaw am y taliad a wnaed mewn camgymeriad a nodir ym mharagraff 22, ni nodais unrhyw wendidau sylweddol yn amgylchedd rheoli mewnol y Bwrdd Iechyd.
- 32.** Yn dilyn fy adolygiad o'r Gwasanaeth Sicrwydd ac Archwilio a ddarperir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, deuthum i'r casgliad fod y Gwasanaeth Sicrwydd ac Archwilio yn bodloni'r *Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y GIG yng Nghymru 2009* a bod rhai meysydd allweddol sydd angen eu gwella er mwyn sicrhau cysondeb pellach.
- Mae datblygiadau eisoes ar y gweill a fydd yn gwella ymhellach y gwasanaeth a ddarperir i gyrrff iechyd yng Nghymru.

**Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu arwyddocaol y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n briodol ac yn gweithredu'n ôl y bwriad. Fel rhan o'i raglen waith, mae'r gwasanaethau Archwilio Mewnol wedi canfod rhaid gwendidau mewn meysydd risg uchel, yn y maes gwasanaethau/clinigol yn bennaf, sy'n gofyn am weithredu gan y rheolwyr**

- 33.** Yn amodol ar y materion a nodwyd yn flaenorol, ni welais unrhyw wendidau sylweddol yn systemau ariannol a chyfrifyddu arwyddocaol y Bwrdd Iechyd a fyddai'n effeithio ar fy marn.
- 34.** Mae Adroddiad Blynyddol Pennaeth y gwasanaethau Archwilio Mewnol yn amlygu nifer o wendidau y mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n rhoi sylw iddynt. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad y gall y Bwrdd Iechyd drwyddo draw gael 'sicrwydd cyfyngedig' bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, wedi eu cynllunio'n briodol a'u cymhwyso'n effeithiol. Roedd y rhan fwyaf o waith y gwasanaethau Archwilio Mewnol wedi'i anelu at feysydd risg uchel ac mae'r materion a nodwyd, yn bennaf, yn y maes clinigol/gwasanaethau. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr argymhellion a wnaed gan y gwasanaethau

---

Archwilio Mewnol yn cael eu rhoi ar waith. Mae cynlluniau gweithredu wedi cael eu datblygu i atgyfnerthu rheolaethau ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar y cynnydd.

---

## Adran 2: Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran y defnydd o adnoddau

- 35.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau cywir ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi gwneud amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:
- adolygu trefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o sicrhau balans ariannol;
  - asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith mewn perthynas â'r Asesiad Strwythuredig, gan gynnwys adolygu'r cynnydd a wnaed ers y llynedd ar lywodraethu ansawdd a threfniadau ar gyfer mesur a gwella profiad cleifion/defnyddwyr;
  - gwaith penodol ar ddefnyddio adnoddau o safbwynt nyrsys ardal, trefniadau codio clinigol, gwasanaethau orthopedig ynghyd ag archwiliad lleol o ddangosyddion perfformiad o safbwynt salwch; ac
  - asesu'r cynnydd a wnaeth y Bwrdd Iechyd i roi sylw i'r materion a welwyd mewn gwaith archwilio blaenorol ar theatrau llawdriniaethau.
- 36.** Crynhoir prif ganfyddiadau'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

Mae gan y Bwrdd Iechyd reolaeth ariannol ganol blwyddyn gadarnhaol ar y cyfan ond mae rhai gwelliannau'n ofynnol. Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb yn 2013-14 ac mae'n annhebygol o wneud hynny yn 2014-15. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu cyfeiriad strategol clir drwy ei Gynllun Tymor Canolig Integredig

Yn 2013-14, ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb gan adrodd am ddiffyg ariannol o £19.225 miliwn. Roedd y rheolaeth ariannol yn gadarn, ond mae lle i wella mewn rhai meysydd – er enghraifft, roedd rhai o Gynlluniau Gwella Costau'r Gweithlu yn rhy uchelgeisiol ac ni cheid cynlluniau manwl i'w cefnogi

- 37.** 2013-14 oedd y bedwaredd flwyddyn o gyllid 'arian gwastad' i'r Bwrdd Iechyd. Ar ddechrau'r flwyddyn nodai'r cynllun ariannol fwlch ariannol heriol iawn o oddeutu £56 miliwn. Yn unol â gofynion statudol, ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gosododd y Bwrdd Iechyd gyllideb gytbwys yn dechnegol gyda £28 miliwn o Gynlluniau Gwella Costau (CGC) ond ceid bwlch o £28 miliwn arall nad oedd gan y Bwrdd Iechyd unrhyw gynlluniau i'w gau.

- 
38. Yn ystod y flwyddyn roedd y Bwrdd Iechyd wedi'i gyfyngu o ran pa gamau y gallai eu cymryd i ailgynllunio gwasanaethau, ond yn unol â'r rhan fwyaf o gyrff eraill GIG Cymru, fe wnaeth y mesurau i arbed arian effeithio ar ddarparu gwasanaethau 'heb fod yn frys' oherwydd i weithgaredd clinigol brys gael ei flaenoriaethu a chafodd rhai gweithgareddau eu gohirio. Nid yw hyn yn cynnig gwerth da am arian.
  39. O'i gymharu â'i darged o £28 miliwn yn y CGC, sicrhodd y Bwrdd Iechyd arbedion o oddeutu £23.5 miliwn. Y maes gyda'r tangyflawniad mwyaf oedd y Gweithlu gyda ffigur o £7.3 miliwn. Rwy'n pryderu bod rhai CGC wedi'u cyflawni yn seiliedig ar danwariant yn erbyn gwariant wedi'i gyllidebu, felly nid yw'n glir pa mor llwyddiannus fu'r CGC.
  40. Ym mis Hydref 2013 derbyniodd y Bwrdd Iechyd tua £14.45 miliwn o arian referiw ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Ar ddiwedd y flwyddyn ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli ei gyllideb gan adrodd am ddiffyg diwedd blwyddyn o £19.225 miliwn. Arweiniodd hyn at farn amodol ar reoleidd-dra ac adroddiad sylweddol ychwanegol fel y nodir ym mharagraffau 22 i 24.
  41. Yn ystod 2013-14, roedd y gwaith o fonitro'r gyllideb yn fisol ac adrodd wrth Lywodraeth Cymru, y Bwrdd ac adrannau yn gadarn, yn gynhwysfawr ac yn amserol. Er bod 'cyllidebu sylfaen sero' wedi cael ei ddefnyddio mewn meysydd megis Nyrsio Wardiau, dylid ei ymestyn i feysydd cost eraill. Yn olaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhyw gymaint o waith diweddar ar feincnodi perfformiad gyda sefydliadau eraill ar draws Cymru, ond mae mwy i'w wneud, megis dadansoddi gwybodaeth am brisio.

Ar gyfer 2014-15, mae'r trefniadau adrodd a'r rheolaeth ariannol ganol blwyddyn yn gadarn ond nid oes cynllun ariannol cytbwys a chynaliadwy i'w gael ac mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn rhagamcanu diffyg ariannol diwedd blwyddyn sylweddol o £63 miliwn

42. Yn 2014-15, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i wella effeithiolrwydd ei drefniadau ar gyfer rheoli'r gyllideb ac mae wedi asesu lefel yr arbedion sy'n ofynnol i allu mantoli'r gyllideb. Nid oedd cynllun ariannol 2014-15 a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym Mawrth 2014 yn mantoli gan fod y cynllun yn dangos her gros o £68.7 miliwn (£19.225 miliwn o hwn yw'r 'ad-daliad' o ddiffyg ariannol 2013-14) ac nid oedd y Bwrdd Iechyd ond yn gallu gosod CGC o £13 miliwn.
43. Hanner ffordd drwy flwyddyn ariannol 2014-15, mae'r Bwrdd Iechyd yn cael trafferth cyrraedd yr alldro rhagamcanol cychwynnol – mae'r diffyg diwedd blwyddyn wedi cynyddu o ffigur rhagamcanol o £57.9 miliwn ar ddechrau'r flwyddyn, i £63.4 miliwn.
44. Yn 2013-14, cyrhaeddodd y Bwrdd Iechyd ei Derfyn Adnoddau Cyfalaf o £21 miliwn. Fodd bynnag, fel y gwelir yn [Arddangosyn 2](#) isod, mae risgiau gwasanaeth ac ariannol arwyddocaol i'w cael yn awr ac i'r dyfodol o safbwynt cyflwr ystâd ac offer a chyfarpar y Bwrdd Iechyd.



---

Nid oes gan y Bwrdd Iechyd CTCI cymeradwy sy'n cyplysu cyllid, y gweithlu a gwasanaethau

45. Mae Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 wedi cyflwyno cyfundrefn gyllid fwy hyblyg. Mae'n darparu dyletswydd ariannol gyfreithiol newydd i fyrddau iechyd lleol i fantoli'r gyllideb dros dair blynedd ariannol dreigl yn hytrach na bob un flwyddyn. Mae'r Ddeddf yn caniatáu i fyrddau iechyd lleol ganolbwyntio eu penderfyniadau am arian, eu cynlluniau gwasanaeth a'u gweithlu a'u gweithredu dros gyfnod hirach, mwy hylaw, gan symud i ffwrdd oddi wrth gyfundrefn sy'n annog penderfyniadau tymor byr o amgylch y flwyddyn ariannol. Mae'r hyblygrwydd ariannol, fodd bynnag, yn amodol ar allu cyrff y GIG i baratoi CTCI cadarn addas, a bod Gweinidogion Cymru yn rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i'r cynlluniau hynny.
46. Cymeradwyodd y Bwrdd un CTCI ym mis Ionawr 2014, a chyflwynwyd hwn i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Fodd bynnag, ni chymeradwyodd Llywodraeth Cymru'r ddogfen gan ei bod ymhell iawn o'r hyn a ddisgwyliid. Trafodir hyn yn fanylach ym mharagraff 49 isod.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gryfhau ei drefniadau llywodraethu ac yn creu diwylliant mwy agored a thryloyw. Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn rhai meysydd wedi bod yn araf ac nid yw'r Bwrdd Iechyd eto wedi rhoi sylw i rai gwendidau sylfaenol gan gynnwys datblygu cynllun strategol clir a fframwaith sicrwydd i'r Bwrdd

47. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried fy nghanfyddiadau yngl n â llywodraethu a gwaith sicrwydd y bwrdd, ac fe'i cyflwynir o dan y themâu canlynol:
  - cynllunio strategol;
  - strwythur sefydliadol;
  - gwaith sicrwydd y bwrdd a mesurau rheoli mewnol gan gynnwys rheoli perfformiad; a
  - chynnydd o ran ymateb i faterion llywodraethu a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd.

Er iddo wneud nifer o newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau, mae gwendidau yn CTCI y Bwrdd Iechyd yn awgrymu nad yw cynllunio strategol wedi bodloni anghenion y sefydliad, er bod gwaith yn mynd rhagddo i roi sylw i hyn

48. Bu gweledigaeth strategol y Bwrdd Iechyd yn glir ers cryn amser. Yn seiliedig ar y weledigaeth, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno nifer o newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau sy'n cwmpasu ystod o feysydd gwasanaeth gan gynnwys gwasanaethau plant a mamolaeth, gofal heb ei drefnu ac adsefydlu.



- 
- 49.** Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, cafodd CTCl ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2014, a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo. Fodd bynnag, ni chymeradwyodd Llywodraeth Cymru'r ddogfen oherwydd ei fod ymhell o'r hyn a ddisgwylid. Dyma'r rhesymau allweddol pam na chymeradwyodd Llywodraeth Cymru'r CTCl:
- diffyg opsiynau strategol a chyfeiriad strategol a ffafrir ar gyfer y Bwrdd lechyd;
  - camau gweithredu uchelgeisiol a diffyg eglurder yngl n â'r canlyniadau roedd y Bwrdd lechyd yn ceisio eu cael;
  - nid oedd y canlyniadau o ran darpariaeth a pherfformiad ar gyfer y tair blynedd nesaf wedi eu nodi'n glir ac ni cheid unrhyw drywydd clir ar berfformiad;
  - nid oedd y cynlluniau gweithlu yn gadarn, gan gynnwys rheoli risgiau/prinder yn y gweithlu;
  - roedd angen cryfhau'r gwaith cynllunio ariannol gyda 'mwy o fanylder' gan gysylltu â chynlluniau gweithlu a gwasanaethau; ac
  - ar draws tair blynedd y CTCl, dangosai'r cynllun ddiffyg o oddeutu £170 miliwn ac nid oedd dyraniadau cyfalaf y Bwrdd lechyd yn cyd-fynd â rhagdybiaethau Llywodraeth Cymru.
- 50.** Er bod y cyfluniad gwasanaethau a etifeddwyd yn creu nifer o heriau i'r Bwrdd lechyd wrth ddatblygu CTCl cynaliadwy, mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen iddo wella ei CTCl yn ogystal â gwella cysylltiadau ar draws cynlluniau ariannol, gwasanaethau a'r gweithlu.
- 51.** Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod ei ddull o gynllunio strategol yn effeithio ar ei allu i ddatblygu CTCl cadarn ac o ganlyniad fe wnaeth ddiwygio ei drefniadau cynllunio. Dros y misoedd diwethaf mae'r Bwrdd lechyd wedi ymdrechu'n galed i lunio CTCl mwy cydlynol ac ymarferol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2015.

**Mae'r strwythur trefniadol newydd yn darparu llinellau atebolrwydd cliriach ac yn galluogi rhoi ffocws cadarnach ar gyflawni gweithredol, gwella a newid. Ar gyfer rhai meysydd, bydd sicrhau newid yn dibynnu ar roi sylw i nifer o heriau diwylliannol anodd**

- 52.** Daeth yr ad-drefnu sefydliadol arfaethedig yr adroddwyd arno y llynedd i rym ym mis Gorffennaf 2014. Yn flaenorol, gweithredai'r Bwrdd lechyd fel tair sir ar wahân gyda chyfrifoldeb am wasanaethau aciwt, sylfaenol a chymunedol. Mae gan y strwythur newydd gyfarwyddiaeth gwasanaethau aciwt sy'n rhychwantu'r Bwrdd lechyd cyfan yn ychwanegol at y tair sir. Nod y newid strwythurol yw sicrhau bod y gwasanaethau aciwt yn darparu gofal mwy cydlynol, cyson ac yn gwella perfformiad ac effeithlonrwydd. Mae gan y tair sir bellach ffocws ar gomisiynu a chymunedau, gan gynnal eu haliniad â'r awdurdodau lleol partner. Mae'r llinellau atebolrwydd gweithredol yn gliriach yn awr a cheir fframwaith rheoli perfformiad cadarnach yn sail i'r cyflenwi.
- 53.** Er y dylai'r strwythur newydd hyrwyddo mwy o ymdeimlad o gydlynol, mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod y bydd yn anodd sicrhau cytundeb gan rai arbenigeddau clinigol i weithio fel un Bwrdd lechyd. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod llawer o glinigwyr,

---

ers cryn amser, wedi gweithio mewn dim ond un ysbyty ac wedi dod i arfer â gweithio mewn ffyrdd penodol. Yn aml gall y ffordd o weithio fod yn wahanol ar draws pedwar safle prif ysbytai'r Bwrdd Iechyd a bydd angen rhoi sylw i hyn.

**Mae effeithiolrwydd y Bwrdd, sicrwydd y Bwrdd a rheolaethau mewnol yn parhau i gael eu cryfhau ac maent yn effeithiol i raddau helaeth er bod rhai meysydd pwysig sydd angen sylw o hyd**

- 54.** Mae rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd yn parhau i esblygu a chael eu cryfhau ac er bod y Bwrdd ar y cyfan yn dangos gweinyddiaeth ac ymddygiad effeithiol erys rhai heriau. Mae diffyg amcanion strategol y cytunwyd arnynt a fframwaith sicrwydd clir i'r Bwrdd yn ei gwneud yn fwy anodd i'r Bwrdd ddangos ei fod yn cael y sicrwydd cywir. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu'r rhain ochr yn ochr â'i CTCI.
- 55.** Mae cynlluniau dirprwyo wedi newid sawl gwaith yn y flwyddyn diwethaf, ac mae hyn yn peri risg o ddryswch yngl n ag atebolrwydd a diffyg dilyniant. Cafodd y newidiadau eu symblu i raddau helaeth gan swyddi cyfarwyddwyr gwag, er nad dyma'r prif reswm. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod mai sefyllfa dros dro yw'r cynlluniau dirprwyo presennol, nes bydd y Prif Swyddog Gweithredol newydd yn dechrau yn gynnar yn 2015.
- 56.** Mae'r Bwrdd yn rhoi sylw manwl i ansawdd a diogelwch ac mae hyn yn sail i sawl agwedd ar ei waith. Ceir yn awr fwy o dryloywder a gonestrwydd gyda phapurau pwyllgor ar gael yn haws ar y rhyngwyd a mwy o welededd o safbwynt aelodau'r Bwrdd ar lefel weithredol.
- 57.** Mae newidiadau pellach yn strwythur a gweithrediad pwyllgorau wedi helpu i gryfhau'r llywodraethu a'r sicrwydd cyffredinol er bod lle i wella o hyd. Mae gan bwyllgorau weinyddiaeth ac ymddygiad effeithiol ar y cyfan gyda phrosesau craffu a herio da. Fodd bynnag, mae ansawdd y papurau yn amrywiol ac ar adegau ceir dyblygu agendâu a diffyg eglurder o ran lle dylai materion gael eu trafod. Yn benodol, mae'r pwyllgor Ansawdd a Diogelwch bellach yn fwy strategol ac yn canolbwyntio ar gael sicrwydd priodol ond mae angen mwy o eglurder o safbwynt adroddiadau eithrio a sicrhau bod y lefel gywir o sicrwydd yn dod i law oddi wrth is-bwyllgorau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud gwaith i ddiffinio beth mae pob pwyllgor yn ei wneud, canfod unrhyw fylchau neu ddyblygu ac ailddiffinio 'llifau sicrwydd'.
- 58.** Mae'r wybodaeth a gyflwynir i'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gyffredinol yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau a goruchwylio da mewn meysydd busnes allweddol. Mae adroddiad perfformiad misol cyffredinol y Bwrdd Iechyd wedi cael ei gryfhau ymhellach yn ystod y flwyddyn gyda chrynodebau manwl, tynnu sylw'n well at risgiau allweddol a chymau gweithredu a gefnogir gan adroddiad llawn data wedi'i raddio'n Goch, Ambr neu'n Wyrdd. Mae'r adroddiad yn rhoi sylw i feysydd perfformiad allweddol, gan gynnwys anghenion ac atal, profiad a mynediad; prosesau llif cleifion; ac ansawdd a diogelwch. Ceir ffocws cadarn ar iechyd cyhoeddus gyda meysydd gofal sylfaenol ond ychydig o fesurau cymunedol a gweithlu.
- 59.** Mae'r meysydd cymunedol yn cael eu datblygu drwy gr p Gorchwyl a Gorffen cymunedol, ac mae cardiau sgorio cytbwys yn cael eu datblygu ar gyfer pob maes gwasanaeth. Mae'r dangosfwrdd ansawdd yn cael ei gywreinio'n barhaus gyda'r

---

fersiwn bresennol yn cyd-fynd â'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys ar y wefan 'Fy Ngwasanaeth Iechyd Lleol'. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod lle i wella ymhellach. Mae'r wybodaeth gyfredol yn cefnogi herio, trafod a gwneud penderfyniadau ond mae angen gwneud mwy i driongli gwybodaeth, deall effeithiau ar draws perfformiad, ansawdd a chyllid, a symud tuag at adrodd sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau.

- 60.** Mae'r trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu perfformiad wedi'u gwella gyda mwy o ddealltwriaeth o faterion perfformiad a lle mae angen gwella, er bod cydbwysio perfformiad ariannol a pherfformiad gwasanaethau'n parhau i fod yn her sylweddol. Ceir erbyn hyn atebolrwydd cliriach a chyfarfodydd gwasanaeth perfformiad rheolaidd sy'n cael eu llywio gan ddata mwy cynhwysfawr ac amserol. Caiff gwybodaeth fanwl am wasanaethau aciwt ei chynhyrchu bob dydd yn ôl arbenigeddau ac yn ôl ysbytai a chaiff hon ei defnyddio i lywio cyfarfodydd gwasanaeth dyddiol i gefnogi a sicrhau gwell llif cleifion. Mae adolygiadau prosesau systematig o rai meysydd gwasanaeth yn cefnogi dealltwriaeth a gwelliant gyda chynlluniau er mwyn cynnal adolygiadau tebyg ar draws gwahanol feysydd gwasanaethau. Mae perfformiad wedi gwella mewn rhai meysydd drwy gyfuniad o'r prosesau sydd wedi'u cryfhau a chraffu, ond hefyd drwy fuddsoddiad ychwanegol.
- 61.** Mae gwaith yn mynd rhagddo i gryfhau trefniadau rheoli risg ymhellach, gyda'r cofrestrau risg a'r prosesau cyfredol yn cael eu hailwampio er mwyn cyd-fynd â'r strwythur newydd. Mae'r paneli risg o dan arweiniad cadeiryddion craffu annibynnol yn parhau â'u craffu ar risgiau gweithredol gyda'r staff sy'n gyfrifol. Mae hyn wedi darparu trosolwg a chraffu effeithiol ar risgiau gan helpu i sefydlu trefniadau ar lefel weithredol. Mae'r gofrestr risg gorfforaethol a adroddwyd wrth y Bwrdd yn drosolwg thematig o'r risgiau corfforaethol allweddol yn hytrach nac yn cael eu seilio ar amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. Ar hyn o bryd nid yw'r gofrestr risg gorfforaethol yn rhoi sicrwydd clir i'r Bwrdd bod rheolaethau yn effeithiol, er bod cofrestrau risg gweithredol islaw lefel y Bwrdd yn darparu hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu adolygu ei strategaeth, ei bolisi a'i drefn rheoli risg, a hefyd yn bwriadu trefnu sesiwn datblygu i'r Bwrdd er mwyn ystyried y risgiau corfforaethol a nodi a chytuno ar archwaeth risg y Bwrdd Iechyd.

**Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn rhagweithiol i nifer o faterion llywodraethu ansawdd a nodwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd er bod rhai sialensiau i'w cael o hyd**

- 62.** Y llynedd, canolbwyntiai fy ngwaith asesu strwythuredig ar drefniadau llywodraethu'n gyffredinol gyda ffocws penodol ar drefniadau rheoli ansawdd a llywodraethu ansawdd. Gwelais nifer o agweddau ar lywodraethu ansawdd a oedd angen sylw, yn benodol yr angen i'r Bwrdd Iechyd wella:
- y ffordd mae'n ymateb i bryderon;
  - sut mae'n defnyddio gwybodaeth i lywio dysgu sefydliadol; a'i
  - drefniadau gweithredol ar gyfer cipio profiad cleifion.

- 
63. Canfu fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2014, er bod camau wedi'u cymryd i roi sylw i reoli pryderon, fod meysydd sydd angen eu gwella o hyd. Saif y cyfrifoldeb gweithredol dros bryderon yn awr gydag un cyfarwyddwr, ond gyda chyfranogiad gweithredol pob cyfarwyddwr. Er mwyn rhoi sylw i ansawdd gwael ymatebion i gwynion, mae'r Bwrdd lechyd wedi canolbwyntio ar adolygu pob cwyn ac ymateb unigol. O ganlyniad mae ansawdd ymatebion wedi gwella er bod prydlondeb yn dal i fod yn broblem.
64. Mae'r Bwrdd lechyd wedi dod yn fwy rhagweithiol yn rhoi themâu i bryderon a'u triogli i lywio dysgu. Er y ceir llawer o enghreifftiau o'r Bwrdd lechyd yn dysgu o ddigwyddiadau, mae angen dull gweithredu mwy systematig ar gyfer dysgu sefydliadol. Mae'r cylchlythyr a ddatblygwyd yn ddiweddar 'dysgu gwersi', fodd bynnag, yn gam cadarnhaol i'r cyfeiriad hwn.
65. Mae'r Bwrdd lechyd wedi parhau i gryfhau ei ddull o fesur profiad cleifion gyda nifer o ddulliau amrywiol ac arloesol yn cael eu mabwysiadu er mwyn deall barn cleifion. Canfu fy nhîm fod gan y Bwrdd yn awr fwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion a phrosesau profiad cleifion, a cheir tystiolaeth o ddull gweithredu mwy cyson a sefydledig ar gyfer deall profiad cleifion ar draws y sefydliad.
66. Roedd fy ngwaith blaenorol hefyd yn tynnu sylw at yr angen i gryfhau'r materion sicrhau ansawdd a llywodraethu eraill. Eleni, canfûm fod camau wedi eu cymryd i gryfhau Datganiad Ansawdd Blynyddol y Bwrdd lechyd sydd bellach yn haws ei ddefnyddio ac yn rhoi darlun clir o'r materion, y camau a'r cynnydd yn erbyn y camau gweithredu. Mae effeithiolrwydd archwilio clinigol hefyd wedi cael ei gryfhau yn y flwyddyn diwethaf ac mae bellach yn canolbwyntio mwy ar risg.
67. Fel rhan o'm hymrwymiad i helpu i sicrhau a dangos gwelliant drwy waith archwilio, rwyf wedi adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd lechyd i reoli ac ymateb i argymhellion a wnaed fel rhan o'n rhaglen orfodol genedlaethol a lleol o waith archwilio yn ystod 2012, 2013 a 2014. Mae fy ngwaith wedi canfod bod trefniadau effeithiol drwyddynt draw ar waith i reoli ac ymateb i argymhellion archwilio er bod lle i sicrhau ymateb cychwynnol mwy cyson gan reolwyr.

**Mae'r Bwrdd lechyd yn gwella ei drefniadau cynllunio gweithlu ac yn cryfhau ymhellach ei waith partneriaeth a'i gysylltiadau â'i boblogaeth leol, ond ceir o hyd nifer o risgiau arwyddocaol o safbwynt y gweithlu, ystadau ac asedau**

68. Mae fy ngwaith asesu strwythuredig wedi adolygu sut y rheolir galluogwyr allweddol i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Eleni, rwyf wedi gwneud sylwadau ar gapasiti rheoli newid y sefydliad, materion gweithlu, ystadau ac asedau, gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu â dinasyddion. Mae fy ngwaith yn mynd rhagddo a bydd nifer o'r meysydd thematig yn cael eu hadolygu yn fwy manwl ar ddechrau 2015 ar ôl i'r Bwrdd lechyd ailgyflwyno ei CTCL i Lywodraeth Cymru.

69. Mae fy ngwaith hyd yma wedi dangos:

- bod y Bwrdd lechyd yn cryfhau ei drefniadau rheoli newid ac y ceir rhai esiamplau cadarnhaol o newid llwyddiannus;
- y ceir arwyddion cynnar o ymrwymiad y Bwrdd lechyd i gryfhau prosesau cynllunio'r gweithlu a chyflenwi gwasanaethau ond erys rhai heriau o safbwynt recriwtio a'r gweithlu o hyd;
- bod cyflwr ystâd ac offer a chyfarpar y Bwrdd lechyd yn cyflwyno risgiau gwasanaeth ac ariannol arwyddocaol;
- bod dull gweithredu'r Bwrdd lechyd o safbwynt gweithio cydweithredol yn gadarnhaol er nad yw mesurau perfformiad a chanlyniadau wedi'u diffinio'n dda ar draws y partneriaethau; a
- bod y Bwrdd lechyd wedi cydnabod yr angen am gysylltu'n fwy parhaus gyda'i boblogaeth er mwyn gwella'i enw da a hysbysu pobl leol o'r heriau y mae'r GIG yn eu hwynebu a'r angen am newid.

70. Mae manylion pellach am fy nghanfyddiadau allweddol i'w gweld yn [Arddangosyn 2](#).

### Arddangosyn 2: Asesiad Strwythuredig – galluogwyr allweddol i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol

Mater	Crynodeb o'r canfyddiadau
Capasiti i reoli newid	<p>Mae'r Bwrdd lechyd yn cryfhau ei drefniadau rheoli newid a cheir rhai enghreifftiau cadarnhaol o newid llwyddiannus. Yn hanesyddol ni fu rhaglenni rheoli newid yn gadarn ond mae llwyddiant y Bwrdd lechyd yn cyflawni nifer o newidiadau pwysig mewn gwasanaethau eleni yn dangos ei fod wedi cryfhau ei ddull gweithredu a bod y peirianweithiau cyfathrebu ar gyfer y cynlluniau hyn wedi gwella'n fawr.</p> <p>Byddwn yn edrych ar reoli newid yn fwy manwl yn 2015 ar ôl cyflwyno CTCL y Bwrdd lechyd.</p>
Cynllunio'r gweithlu	<p>Ceir arwyddion cynnar o ymrwymiad y Bwrdd lechyd i gryfhau'r broses o gynllunio'r gweithlu a darparu gwasanaethau ond mae heriau o safbwynt recriwtio a gweithlu yn parhau mewn rhai meysydd.</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod bod angen cryfhau'r broses o gynllunio'r gweithlu a bod cynlluniau blaenorol yn seiliedig ar fodelau gwasanaeth cyfredol nid rhai'r dyfodol. Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r CTCL diweddar, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddadansoddi bylchau a chynllunio'n rhagolygol o safbwynt y gweithlu. Fodd bynnag, ceir nifer o heriau sylweddol gyda'r gweithlu o hyd gyda rhai meysydd gwasanaeth bregus. O ganlyniad, mae'r Bwrdd lechyd wedi dechrau ystyried atebion amgen ar gyfer y gweithlu er mwyn rhoi sylw i'r heriau hyn a chymerwyd mesurau cadarnhaol i hyrwyddo recriwtio nyrsys.</p> <p>Mae dangosyddion perfformiad y gweithlu wedi cael eu cryfhau yn sylweddol ac maent yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o gynllunio a chyflawni gweithredol.</p>

Mater	Crynodeb o'r canfyddiadau
Cynllunio'r gweithlu	<p>Mewn blynyddoedd blaenorol rydym wedi gwneud sylwadau ar yr angen i gynyddu'r nifer sy'n dilyn hyfforddiant statudol a gorfodol ynghyd â nifer y nyrsys sy'n derbyn gwerthusiad blynyddol a Chynllun Datblygu Perfformiad (CDP). Eleni, er y ceir pocedi o arferion da, nid yw gweithlu nyrsio'r Bwrdd lechyd yn dal i fodloni ei ofynion statudol a gorfodol, ac mae'r perfformiad o safbwynt gwerthusiadau blynyddol a CDP yn parhau i fod yn broblem.</p>
Ystadau ac asedau	<p>Fel mewn rhannau eraill o Gymru, mae cyflwr ystâd ac offer a chyfarpar y Bwrdd lechyd yn cyflwyno risgiau gwasanaeth ac ariannol arwyddocaol yn awr ac i'r dyfodol. Ar gyfer y Bwrdd lechyd tybir bod gwerth tua £37.8 miliwn o asedau TGCh, offer, cyfarpar a cherbydau sydd wedi mynd heibio'u hoes economaidd a rhagwelir y byddant yn codi 35 y cant arall i £50.9 miliwn erbyn 31 Mawrth 2015.</p> <p>Mae asedau h n yn peri risg weithredol arwyddocaol i'r Bwrdd lechyd ac mae eu costau rhedeg, cynnal a chadw a thrwsio yn uwch yn gyffredinol.</p> <p>Mae cyflwr ystâd y Bwrdd lechyd (tir ac adeiladau) yn peri risgiau i'r Bwrdd lechyd eu rheoli. Mae yna hefyd ganlyniadau ariannol i'w cost o ran ynni, y gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni a'u cyflwr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae 'gwaith cynnal a chadw sydd wedi ôl-gronni' risg uchel y Bwrdd lechyd wedi cynyddu ychydig er 2011-12 – y bwrdd hefyd yw'r corff GIG ail uchaf o hyd o ran 'risg arwyddocaol' yng Nghymru ar £25.4 miliwn.</li> <li>• Er bod perfformiad cydymffurfiaeth Statudol/Diogelwch y Bwrdd lechyd yn well na'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru Gyfan (86 y cant) nid yw wedi cyrraedd targed 90 y cant presennol Llywodraeth Cymru hyd yma.</li> <li>• Mae'r Safonau Diogelwch Tân wedi dangos gwelliant sylweddol er 2010 ac maent yn rhagori ar darged 90 y cant Llywodraeth Cymru.</li> <li>• Mae addasrwydd swyddogaethol yr asedau wedi gwella ac mae bellach yn cyrraedd targed 90 y cant Llywodraeth Cymru.</li> <li>• Cyrhaeddwyd targedau defnyddio lle Llywodraeth Cymru.</li> <li>• Gwelwyd gostyngiad bychan mewn perfformiad o ran effeithlonrwydd ynni o'i gymharu â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol. Heblaw am Lwyn Helyg, mae'r prif safleoedd yn berfformwyr gwael ar y cyfan.</li> </ul>



Mater	Crynodeb o'r canfyddiadau
Ystadau ac asedau	<p>Mewn blynyddoedd blaenorol rydym wedi nodi nifer o risgiau arwyddocaol gyda'r seilwaith TGCh sy'n heneiddio a'r diffyg buddsoddiad cyfalaf i roi sylw i'r risgiau hyn. Eleni, mae fy nhîm wedi dod i'r casgliad bod y seilwaith TGCh yn parhau i fod yn risg arwyddocaol ac nad oes atebion cynaliadwy wedi cael eu nodi. Nid yw'r Bwrdd lechyd wedi rhoi blaenoriaeth i wella'r seilwaith TGCh sy'n annigonol i fodloni anghenion y Bwrdd lechyd heddiw ac i'r dyfodol. Ychydig iawn o fuddsoddi a wnaed mewn gwasanaethau craidd ac ystyrir bod oddeutu £8.6 miliwn o asedau TGCh y tu hwnt i'w hoes economaidd. Mae gwasanaethau craidd TGCh yn fregus sy'n golygu bod y gwasanaeth yn parhau i ymdrechu i sicrhau bod systemau'n dal i weithio. Er bod y Bwrdd lechyd wedi gwneud cynllun datblygu cyfalaf pum mlynedd sy'n nodi'r holl risgiau TGCh sy'n gofyn am arian cyfalaf; nid yw hwn yn cael ei gefnogi gan strategaeth a chynllun TGCh ar gyfer sut bydd y Bwrdd lechyd yn blaenoriaethu ac yn ymdrin â'r risg arwyddocaol hon.</p> <p>Yn gysylltiedig â'r CTCL, mae angen i'r Bwrdd lechyd ddatblygu strategaeth rheoli asedau sy'n asesu risgiau ac yn blaenoriaethu sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r risgiau hyn. Bydd hyn yn erbyn cefndir o adnoddau referiw cyfyngedig ac adnoddau cyfalaf sy'n lleihau'n sylweddol.</p>
Gweithio mewn partneriaeth	<p>Mae gan y Bwrdd lechyd agwedd dda at weithio'n gydweithredol, er nad yw'r mesurau canlyniadau a pherfformiad hyd yma wedi cael eu diffinio'n dda ar draws pob partneriaeth.</p> <p>Mae'r Bwrdd lechyd yn bartner cryf ar y Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGLI) er bod effeithiolrwydd y tri BGLI yn amrywiol.</p> <p>Mae'r partneriaethau statudol yn gryf ar y cyfan ac yn darparu strwythur cadarn ar gyfer gweithio strategol a gweithredol effeithiol.</p> <p>Mae partneriaethau gweithredol yn gweithio'n dda ar y cyfan gydag amcanion clir ond am rai meysydd gwasanaeth megis gwasanaethau i oedolion, gwybodaeth gyfyngedig a geir am ganlyniadau i ddangos pa wahaniaeth mae'r partneriaethau yn ei wneud.</p> <p>Mae partneriaethau gyda chyrrff eraill y GIG yn gweithio'n dda yn gyffredinol gydag ymgysylltu ar faterion strategol a gweithredol. Yn hanesyddol, bu'r perthnasoedd rhwng y Bwrdd lechyd a'r Cyngor lechyd Cymuned dan straen ond ceir arwyddion cynnar o welliant. Bydd yn rhaid i'r ddau weithio gyda'i gilydd i wneud y bartneriaeth mor effeithiol â phosibl.</p>

Mater	Crynodeb o'r canfyddiadau
Ymgysylltu â rhanddeiliaid	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod yr angen am fwy o ymgysylltu parhaus gyda'i boblogaeth i wella ei enw da a hysbysu pobl leol o'r heriau sy'n wynebu'r GIG a'r angen am newid.</p> <p>Mae gan y Bwrdd Iechyd gynllun cyfranogiad ac ymgysylltu sy'n darparu peirianweithiau ymgysylltu parhaus a deialog rheolaidd â chleifion/defnyddwyr. Ceir nifer o enghreifftiau cadarnhaol o ymgysylltu â defnyddwyr sydd wedi helpu i wella gwasanaethau.</p> <p>Cynhelir amrywiaeth eang o weithgareddau ymgysylltu ar newid a chynllunio gwasanaethau strategol a gweithredol. Ar adegau, fodd bynnag, mae'r ymgysylltu cadarnhaol wedi cael ei gysgodi gan farn anffafriol gan y cyfryngau a'r cyhoedd, sy'n awgrymu y bydd angen i agweddau ar y dull gweithredu newid. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen ymgysylltu'n well â'r cyhoedd a gyda'i staff ei hun ac ail-ennill ei enw da. Mae rhaglen ragweithiol o ymgysylltu parhaus yn hanfodol i lwyddiant y CTCL.</p>

## Er bod fy ngwaith archwilio perfformiad wedi nodi rhai meysydd arferion da mae hefyd wedi nodi cyfleoedd i sicrhau gwell defnydd o adnoddau mewn nifer o feysydd

71. Yn ystod 2014, rwyf wedi cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd Iechyd ar ddefnyddio adnoddau yn y meysydd penodol canlynol:
  - Gwasanaethau nyrsys ardal
  - Trefniant codio clinigol
  - Gwasanaethau Orthopedig
  - Archwilio Dangosydd Perfformiad Salwch
  - Gwaith dilynol theatrau llawdriniaethau
72. Mae prif ganfyddiadau'r adolygiadau hyn wedi'u crynhoi yn yr adrannau canlynol.

Nid oes gan y Bwrdd Iechyd strategaeth glir ar gyfer ei wasanaeth nyrsys ardal, a chaiff y cynllunio a'r cyflenwi eu cymhlethu gan ddealltwriaeth gyfyngedig o'r galw, amrywiad nas esbonnir mewn defnydd a diffyg monitro systematig ar ansawdd a pherfformiad

73. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol i sefydlu timau a gwasanaethau cymunedol i gefnogi cleifion yn y gymuned ac i atal defnyddio ysbytai yn ddiangen, nid oes ganddo eto strategaeth glir na chynlluniau gweithredol ategol ar gyfer cyflenwi ei wasanaeth nyrsys ardal. Fodd bynnag, mae gwaith yn mynd rhagddo i ganfod cyflwr gwasanaethau cymunedol, sy'n cynnwys rôl nyrsys ardal mewn darpariaeth gwasanaethau ehangach a'r cynlluniau ategol fel sail i hyn. Bydd angen goruchwyliaeth gryfach ar lefel gorfforaethol ar gyfer cyflawni'r amcanion gwasanaethau gofynnol.



- 
- 74.** O fewn y Bwrdd Iechyd, dealltwriaeth gyfyngedig a geir o'r galw am wasanaethau nyrsys ardal ac mae angen i'r galw gael ei reoli'n well er bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio i roi sylw i hyn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn wrthi'n buddsoddi mewn hyfforddiant ffurfiol ar gyfer staff nyrsio ardal, ond mae lefelau gwael o gydymffurfio â'r broses arfarnu ac adolygu perfformiad yn tansailio ei allu i ganfod bylchau mewn sgiliau. Mae lefelau isel o gydymffurfio â rhai cyrsiau hyfforddiant statudol a gorfodol yn cyflwyno risgiau corfforaethol a gweithredol.
- 75.** Mae staff nyrsio ardal yn chwarae mwy o rôl i gydlynu'r gwasanaethau gofal iechyd amryfal y mae cleifion yn eu cael yn y gymuned o'i gymharu â rhai ardaloedd yng Nghymru. Fodd bynnag, ceir amrywiaeth na esbonnir yn y ffordd y caiff timau nyrsys ardal eu defnyddio gyda staff wedi'u dosbarthu'n anwastad ar draws y llwythi achosion. Yn ogystal, ni all y Bwrdd Iechyd fod yn sicr bod yr adnoddau nyrsys ardal yn cyd-fynd ag anghenion y llwyth achosion, a gellid gwneud mwy i reoli llwythi achosion yn well.
- 76.** Nid yw'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn gallu asesu, monitro ac adrodd yn systematig ar berfformiad, ansawdd a diogelwch ei wasanaeth nyrsys ardal. Mae'r systemau ar gyfer casglu gwybodaeth ac adrodd ar weithgaredd yn anghyson rhwng siroedd heb fawr o eglurder ynghylch sut mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio i lywio cynllunio neu welliannau. Ni chytunwyd eto ar fesurau perfformiad ar gyfer ansawdd a diogelwch y gwasanaeth nyrsys ardal.
- 77.** Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae'r Bwrdd Iechyd yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau nyrsys ardal ar draws Cymru ac mae'n gweithio i wella'r ffordd y caiff gwybodaeth, gan gynnwys arfer da, eu rhannu oddi mewn i'r siroedd a rhyngddynt.

**Mae'r Bwrdd Iechyd yn rhoi proffil uchel i godio clinigol, gan ei gefnogi â lefel addas o fuddsoddiad. Mae'r Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar wella ansawdd y wybodaeth reoli er bod angen gwella arferion lleol ymhellach**

- 78.** Mae data clinigol wedi'u codio yn sylfaen i gynhyrchu gwybodaeth reoli a ddefnyddir gan gyrff y GIG i lywodraethu'r busnes ac i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac effeithiol a bod gwasanaethau'n ddiogel ac o ansawdd uchel. Yn ystod 2014, cynhaliodd fy nhîm adolygiad o drefniadau'r Bwrdd Iechyd i gynhyrchu codau clinigol amserol a chywir. Gwnaed y gwaith ar y cyd gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.
- 79.** Canfu'r adolygiad fod codio clinigol yn flaenoriaeth gorfforaethol ac y ceid ymwybyddiaeth dda o drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar lefel y Bwrdd gyda llywodraethu ac atebolrwydd clir ar gyfer codio clinigol i'r Bwrdd ac mae'r trefniant codio wedi'i integreiddio'n dda â gwybodeg ehangach. Roedd adnoddau digonol wedi'u dyrannu i godio clinigol gyda ffocws calonogol ar hyfforddiant a datblygiad. Fodd bynnag, nid oedd llawer o ymwybyddiaeth o gywirdeb data wedi'u codio ar lefel y Bwrdd ac roedd y rhyngberthynas rhwng codio a chofnodion meddygol yn wan.
- 80.** Mae sawl agwedd ar y broses codio clinigol yn gadarn gyda pholisïau a gweithdrefnau diweddar, mynediad da yn gyffredinol at wybodaeth a phrosesau cadarnhaol ar gyfer dilysu ac archwilio. Fodd bynnag, caiff yr effeithiolrwydd ei danseilio gan anghysondeb

---

mewn ymarfer ar draws y gwahanol safleoedd, mynediad araf i nodiadau ar rai safleoedd a lefelau cymysg o ymgysylltu clinigol.

- 81.** Mae angen rhoi sylw i ansawdd cofnodion meddygol, yn enwedig o ran defnyddio cofnodion dros dro. Mae'r arfer o ddefnyddio waledi plastig pan nad yw cofnodion ar gael yn bryder. Mae gan hyn oblygiadau o ran ansawdd codio clinigol oherwydd y gallai hanes meddygol blaenorol perthnasol gael ei hepgor wrth godio episod ofal claf. Mae hefyd yn cyflwyno risgiau llywodraethu clinigol ehangach.
- 82.** Mae data clinigol wedi'u codio yn bodloni'r safonau ar gyfer cyflawnrwydd, dilysrwydd a phrydlondeb heb unrhyw ôl-groniadau i effeithio ar y data, ond mae problemau i'w cael gyda chywirdeb codio ac mae hyn angen sylw:
- cyrhaeddodd y Bwrdd Iechyd y safonau dilysrwydd a chysondeb cenedlaethol ar gyfer data sy'n deillio o godio clinigol;
  - cyrhaeddodd y Bwrdd Iechyd darged Llywodraeth Cymru y dylai gweithgarwch gael ei godio cyn pen tri mis, ac mae'r targedau perfformiad yn parhau i gael eu cyrraedd yn ystod y flwyddyn hyd yma; a
  - chanfu'r adolygiad o gywirdeb codio clinigol gyfraddau gwallau yn amrywio o bump i 27 y cant.
- 83.** Mae data clinigol wedi'u codio yn cael eu defnyddio yn briodol ar draws y Bwrdd Iechyd ond, er bod amryw o brosesau ar waith i adolygu cywirdeb codio clinigol, nid yw cywirdeb data yn cael ei adrodd wrth y Bwrdd, felly, nid yw'n ddigon ymwybodol o gywirdeb codio a'i oblygiadau.

**Mae galw mawr a gwasanaethau cleifion allanol aneffeithlon yn arwain at amseroedd aros hir ar gyfer cleifion allanol orthopedig a phrofion diagnostig. Mae'r canlyniadau i gleifion yn gyffredinol dda, ond mae'r cyfraddau uchel o ddiwygio llawdriniaethau cymalau newydd a llawdriniaethau nad ydynt yn effeithiol iawn yn destun pryder**

- 84.** Mae fy nghasgliadau ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac darbodusrwydd gwasanaethau orthopedig yn y Bwrdd Iechyd yn seiliedig ar y data a gasglwyd fel rhan o'm hadolygiad cenedlaethol o wasanaethau orthopedig yng Nghymru, sydd i'w gyhoeddi yn 2015. Mae fy nadansoddiad o ddata Cymru gyfan wedi dangos:
- Bod buddsoddiad y Bwrdd Iechyd mewn gofal sylfaenol wedi cynyddu ond bod cyfraddau cyfeirio meddygon teulu ymysg yr uchaf yng Nghymru ac er bod y Gwasanaeth Triniaethau ac Asesiadau Cyhyrysgerbydol Clinigol (CMATS) yn cael effaith gadarnhaol, mae atgyfeiriadau i ofal eilaidd yn cynyddu'n awr.
  - Er bod gwasanaethau ffisiotherapi yn bodloni'r galw, mae gwasanaethau cleifion allanol yn aneffeithlon a'r cyfraddau aros am radioleg yw'r uchaf yng Nghymru, gyda chyfran yr atgyfeiriadau am ddelweddu cyseiniant magnetig (MRI) hefyd yn uchel.
  - Mae trefniadau asesu cyn llawdriniaethau ar waith ac mae cyfraddau aros yn yr ysbyty yn fyrrach yn gyffredinol nag ar draws Cymru. Mae mwy o le i gynyddu cyfraddau achosion dydd a defnydd gwelyau, lleihau llawdriniaethau sy'n cael eu canslo a lleihau nifer y llawdriniaethau a wneir ond nad ydynt yn effeithiol iawn.

- 
- Mae cleifion yn cael archwiliadau dilynol ac maent yn cael canlyniadau cadarnhaol yn gyffredinol er bod cyfraddau diwygio cymalau newydd ymysg y rhai uchaf yng Nghymru.

Gellir bod yn sicr bod data absenoldeb oherwydd salwch a gofnodir gan y Bwrdd Iechyd yn gywir i raddau helaeth, ond mae perygl bod y ffigurau hyn yn cael eu tanddatgan fymryn, yn enwedig os cânt eu cymryd o adroddiadau a wneir yn fuan ar ôl i'r cyfnod ddod i ben

- 85.** Fel rhan o'r rhaglen gwaith archwilio perfformiad, rydym wedi cynnal asesiad o ddibynadwyedd gwybodaeth dangosyddion perfformiad absenoldeb oherwydd salwch. Dyma ganlyniadau'r gwaith hwn:
- gwelwyd rhai diffygion yn y dyluniad a'r broses a ddefnyddir i gipio gwybodaeth am absenoldeb oherwydd salwch, er bod y rhain yn ymwneud i raddau helaeth â mewngofnodi data salwch yn hytrach na gyda'r system ei hun; ac
  - ni welwyd dim problemau gyda'r dull cyfrifo a ddefnyddir i gael dangosydd perfformiad yr absenoldeb oherwydd salwch.

Er y ceir tystiolaeth o ryw gymaint o ymdrechion lleol i wella gwasanaethau theatrau llawdriniaethau, drwyddo draw ni fu gwelliant sylweddol ers fy adolygiad blaenorol yn 2011, ac erys rhai rhwystrau sylfaenol o hyd

- 86.** Adolygais wasanaethau theatrau llawdriniaethau yn y Bwrdd Iechyd yn ystod 2011. Ers hynny gwelwyd rhywfaint o gamau gwella gydag ymdrechion lleol i wella effeithlonrwydd. Mae cynlluniau gwella wedi cynnwys gweithredu'r Rhaglen Trawsnewid Theatrau, defnyddio 'byrddau diffygion', a defnyddio ymgynghorwyr allanol i adolygu theatrau. Fodd bynnag, nid yw effaith y cynlluniau hyn yn glir oherwydd nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu tynnu'r data angenrheidiol ar ddefnyddio theatrau o'i systemau gwybodaeth.
- 87.** Mae oedi ar hyd llwybr gofal llawfeddygol cleifion yn effeithio ar ddefnyddio capasiti theatrau'n effeithlon ac maent yn cyfrannu at fod sesiynau theatrau'n dechrau yn hwyrach na'r disgwyl.
- 88.** Roedd staff yn gadarnhaol yn gyffredinol am waith tîm a diwylliant diogelwch yn y theatrau ond cafwyd rhai amgyffredion negyddol am lefelau staffio a chyfathrebu. Mae '5 Cam i Lawdriniaethau Mwy Diogel' Sefydliad Iechyd y Byd yn dod yn fwy cyffredin mewn theatrau ond yn aml ni chânt eu cyflawni'n gywir gydag anghysondebau yn y ffordd y maent yn cael eu defnyddio, ac ni chaiff prosesau bob amser eu cynnal fel tîm. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi asesu a yw'r ymyriadau diogelwch yn cael eu defnyddio yn ôl y bwriad.
- 89.** Mae fy ngwaith dilynol wedi dangos bod gan y Bwrdd Iechyd nifer o rwystrau sydd angen eu goresgyn os yw am sicrhau gwelliannau pellach wrth ddefnyddio adnoddau theatrau llawdriniaethau. Nodir y rhain isod:
- Nid yw theatrau llawdriniaethau wedi bod yn un o'r blaenoriaethau corfforaethol a bu'r diffyg arweinyddiaeth ac ysgogiad canolog yn rhwystr sylfaenol rhag gwella.
  - Mae ymdrechion i ysgogi gwelliant wedi dioddef oherwydd diffyg gwybodaeth gadarn. Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu bodloni fy nghais am ddata ar gyfer fy

---

archwiliad dilynol ac o fewn y Bwrdd Iechyd ceir rhwystredigaethau a safbwyntiau sy'n gwrthdaro ynglŷn â system TGCh theatr Myrddin a'i ymarferoldeb adrodd.

- Er bod cynllun gwella theatrau i'w gael ar lefel y Bwrdd Iechyd, nid oedd staff yn ymwybodol ohono ac nid oedd unrhyw dystiolaeth ohono'n cael ei ddefnyddio i ysgogi gwelliant. Mae absenoldeb grŵp theatrau ar draws y Bwrdd Iechyd a nifer o newidiadau ymysg y rheolwyr hefyd wedi effeithio ar y cynnydd.

# Atodiad 1

---

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Adroddiad	Dyddiad
<b>Amlinelliad o'r gwaith archwilio</b>	
Amlinelliad o Waith Archwilio 2014	Mai 2014
<b>Adroddiadau archwilio ariannol</b>	
Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – Bwrdd Iechyd	Mehefin 2014
Barn ar y Datganiadau Ariannol	Mehefin 2014
Adolygiad o'r Archwiliad Mewnol	Gorffennaf 2014
Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – Cronfeydd Ariannol	Hydref 2014
<b>Adroddiadau archwilio perfformiad</b>	
Adolygiad o Godio Clinigol	Ebrill 2014
Archwiliad Dangosyddion Perfformiad Absenoldeb Salwch	Mai 2014
Adolygiad dilynol o Theatrau Llawdriniaethau	Gorffennaf 2014
Adolygiad o Wasanaethau Orthopedig	Tachwedd 2014
Adolygiad o'r Gwasanaeth Nyrsys Ardal	Rhagfyr 2014
Asesiad Strwythuredig 2014	Rhagfyr 2014

Mae nifer o archwiliadau o berfformiad yn dal i fynd rhagddynt hefyd yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig ar gyfer y gwaith.

Adroddiad	Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig
Adolygiad Diagnostig o TGCh	Ionawr 2015
Adolygiad o Gadw Gwybodaeth Wrth Gefn	Chwefror 2015
Adolygiad Dilynol o Lywodraethu Gwybodaeth	Chwefror 2015
Adolygiad o Apwyntiadau Dilynol Cleifion Allanol	Mawrth 2015
Adolygu Dulliau Rheoli Meddyginiaethau	Mai 2015

# Atodiad 2

---

## Risgiau archwilio arwyddocaol

Nododd fy Amlinelliad o Waith Archwilio 2014 y risgiau archwilio ariannol arwyddocaol ar gyfer 2014. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau allweddol ac yn nodi sut rhoddwyd sylw i'r rhain fel rhan o'r archwiliad.

Risg archwilio arwyddocaol	Ymateb archwilio arfaethedig	Gwaith a wnaed a'r canlyniad
Mae'r risg y gallai'r rheolwyr wrthwneud mesurau rheoli yn bresennol ym mhob man. Oherwydd y gallai hynny ddigwydd mewn ffordd nad oes modd ei rhagweld, caiff ei hystyried yn risg arwyddocaol.	Profi priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol. Adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod tuedd. Gwerthuso sail resymegol unrhyw drafodion sylweddol y tu allan i'r busnes arferol.	Mae fy nhîm wedi profi pa mor briodol yw cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol, wedi adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod tuedd ac wedi gwerthuso sail resymegol unrhyw drafodion sylweddol y tu allan i'r busnes arferol. Ac eithrio'r materion hynny a nodir yn <b>Arddangosyn 1</b> , nid oes gennyf faterion pellach i adrodd arnynt.
Mae risg arwyddocaol y bydd y Bwrdd Iechyd yn methu â bodloni ei derfyn adnoddau referniw. Dangosai sefyllfa mis 11 ddiffyg yn y flwyddyn hyd yma o £20.2 miliwn a rhagwelant ddiffyg ar ddiwedd y flwyddyn o £19.15 miliwn. Os eir dros y terfyn adnoddau bydd fy marn ar reoleidd-dra yn un amodol a byddaf yn rhoi adroddiad sylweddol ar y datganiadau ariannol gan esbonio'r methiant ac o dan ba amgylchiadau y mae wedi codi. Mae'r pwysau ariannol presennol yn cynyddu'r risg y gallai barn ac amcangyfrifon rheolwyr ddangos tuedd mewn ymdrech i gyrraedd y terfyn adnoddau.	Canolbwyntio'r profi ar feysydd o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys tuedd adrodd.	Rwyf wedi rhoi amodau ar fy marn ar reoleidd-dra ac wedi rhoi adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd. Mae fy nhîm wedi canolbwyntio'r profi ar y meysydd a allai gynnwys tuedd adrodd. Nid oes gennyf faterion pellach i adrodd arnynt.

---

### Risg archwilio arwyddocaol

Mae risg arwyddocaol y bydd y Bwrdd Iechyd yn wynebu pwysau difrifol ar ei sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r prinder ariannol yn debygol o gynyddu amseroedd talu credydwyr gan effeithio ar Bolisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus (PTSC).

### Ymateb archwilio arfaethedig

Bydd fy nhîm yn archwilio PTSC gan gadw mewn cof y pwysau ariannol sydd ar y Bwrdd Iechyd.

### Gwaith a wnaed a'r canlyniad

Mae fy nhîm wedi monitro gweithredoedd y Bwrdd Iechyd i roi sylw'n llwyddiannus i'r prinder ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae fy nhîm wedi archwilio perfformiad yn erbyn PTSC ac mae'r canfyddiadau i'w gweld yn [Arddangosyn 1](#).

Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Website: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Gwefan: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)